**Ymateb Estyn i’r cynnig** i gau Ysgol Fabanod Trallwng gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Coedpenmaen

## Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a’i Chod cysylltiedig, mae’n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae’n ofynnol iddo weithredu yn unol â’r Cod ac nid yw’r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio’r ymateb canlynol i’r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Y cynnig yw cau Ysgol Fabanod Trallwng gan drosglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Coedpenmaen. Bydd y newid arfaethedig yn dod i rym erbyn Medi 2025, fan bellaf.

## Crynodeb / Casgliad

Mae Estyn o’r farn, os caiff y cynnig ei gyflwyno, y bydd yn cynnal safon y ddarpariaeth addysg ar gyfer disgyblion sy’n mynychu Ysgol Gynradd Coedpenmaen. Fodd bynnag, mae effaith y cynnig ar ddysgu disgyblion a fyddai wedi mynychu Ysgol Fabanod Trallwng yn llai clir.

## Disgrifiad a manteision

Mae’r awdurdod lleol wedi amlinellu rhesymeg glir ar gyfer ei gynnig. Mae hyn yn nodi’n deg y manteision a’r anfanteision disgwyliedig o gymharu â’r sefyllfa bresennol a sut byddant yn rheoli unrhyw risg.

Mae Ysgol Fabanod Trallwng yn ysgol cyfrwng Saesneg sydd â chapasiti ar gyfer 105 o ddisgyblion rhwng 3 a 7 oed. Mae Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg 3-11 sydd â chapasiti ar gyfer 269 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol. Mae’r ysgolion tua 0.2 milltir ar wahân i’w gilydd. Mae disgyblion o Ysgol Fabanod Trallwng yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Coedpenmaen ym Mlwyddyn 3.

Mae’r cynnig yn amlygu’r dirywiad yn niferoedd y disgyblion yn Ysgol Fabanod Trallwng dros y pum mlynedd ddiwethaf a chyfran uchel ddilynol y lleoedd dros ben. Mae’n amcangyfrif mai cyfran debygol y lleoedd dros ben yn yr ysgol yn 2028/29 fydd 54%.

Mae’r awdurdod lleol yn rhoi disgrifiad clir o’r cynnig ac amserlen ragamcanol ar gyfer gweithdrefnau statudol, ac ar gyfer ei rhoi ar waith. Mae’r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned fel rhan o’i gynnig.

Er bod yr awdurdod lleol yn rhagweld dirywiad bach yn niferoedd y disgyblion yn mynychu Coedpenmaen dros y pedair blynedd nesaf, mae’r capasiti lleoedd dros ben presennol a rhagamcanol yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen, yn seiliedig ar ddata CYBLD 2023/24, yn dangos bod diffyg lleoedd i’r disgyblion arfaethedig drosglwyddo o Ysgol Fabanod Trallwng ym mis Medi 2025. Mewn cyferbyniad, mae’r cynnig yn nodi bod amcanestyniad yr awdurdod lleol o niferoedd disgyblion, ar sail data byw, yn dangos y bydd gan Ysgol Gynradd Coedpenmaen gapasiti yn 2025/26 i dderbyn yr holl ddisgyblion yn trosglwyddo o Ysgol Fabanod Trallwng.

O ystyried y rhagolygon, a chyfran y disgyblion sy’n mynychu Ysgol Gynradd Coedpenmaen o’r tu allan i’r dalgylch, mae’r cynnig yn dadlau’n rhesymol y bydd yr awdurdod lleol yn gallu blaenoriaethu’r disgyblion hynny sy’n mynychu Ysgol Fabanod Trallwng ar hyn o bryd ac yn byw o fewn y dalgylch arfaethedig ar gyfer Ysgol Gynradd Coedpenmaen os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen. Fodd bynnag, nid yw’r cynnig yn gwneud yn glir sut gallai trefniadau derbyn effeithio ar y 40% o ddisgyblion sy’n mynychu Ysgol Fabanod Trallwng o’r tu allan i’w dalgylch ar hyn o bryd, nac yn rhoi sicrwydd pendant y bydd yr holl ddisgyblion sy’n cael eu heffeithio yn gallu trosglwyddo i Ysgol Gynradd Coedpenmaen os byddant yn dewis gwneud hynny.

Mae’r awdurdod lleol yn amlinellu tri dewis amgen posibl, ac un o’r rhain yw cynnal y sefyllfa bresennol. Mae’n rhoi rhesymau addas dros wrthod yr opsiwn hwn a’r opsiwn i ffedereiddio’r ddwy ysgol, yn bennaf am y rheswm na fyddai’r naill opsiwn na’r llall yn mynd i’r afael â’r angen i resymoli’r galw am leoedd ysgol neu’n cyflawni effeithlonrwydd y gellir ei ailfuddsoddi er budd y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw’r awdurdod lleol yn rhoi manylion am yr arbedion ariannol posibl a allai gael eu gwneud o’r cynnig, ac nid yw’n dangos sut bydd y rhain yn cael eu hailfuddsoddi chwaith, heblaw i nodi, os aiff y cynnig yn ei flaen, y bydd Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn derbyn cynnydd yn ei chyllid o ganlyniad i’r disgyblion ychwanegol ar y gofrestr. Mae’r awdurdod lleol wedi diystyru trydydd opsiwn i gau’r ddwy ysgol ac adeiladu ysgol gynradd newydd ar safle newydd oherwydd diffyg cyllid wedi’i ddyrannu a’r ffaith nad oes safle addas ar gael yn yr ardal leol.

Mae’r cynigiwr wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr. Mae’n nodi’n gywir bod yr effaith ar amseroedd teithio yn debygol o fod yn ddibwys, o ystyried y pellter byr rhwng y ddwy ysgol. Ar hyn o bryd, mae llwybr cerdded diogel i ddisgyblion Ysgol Fabanod Trallwng gerdded i Ysgol Gynradd Coedpenmaen. O

ystyried agosrwydd y ddwy ysgol i'w gilydd, ni fyddai gan unrhyw ddisgyblion yn nalgylch Ysgol Fabanod Trallwng hawl i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol.

Mae'r cynnig yn ystyried yn rhannol yr effaith negyddol bosibl ar staff sy'n gweithio yn Ysgol Fabanod Trallwng ar hyn o bryd. Mae'n datgan yn glir fwriad yr awdurdod lleol i ofyn i gorff llywodraethol Ysgol Coedpenmaen glustnodi ceisiadau am unrhyw swyddi ychwanegol, islaw uwch lefel arweinyddiaeth, ar gyfer staff presennol yn Ysgol Fabanod Trallwng, yn y lle cyntaf. Yn ychwanegol, mae'n nodi bod gan yr awdurdod lleol bolisïau a gweithdrefnau sefydledig sy'n rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr am reoli newid sefydliadol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn nodi'n glir beth yw cwmpas a goblygiadau ariannol y newid arfaethedig i staff sy'n cael eu cyflogi yn y naill ysgol neu'r llall ar hyn o bryd.

Mae'r cynnig yn cydnabod bod angen ystyried a lliniaru effaith y cynllun arfaethedig i gau Ysgol Fabanod Trallwng ar y gymuned ehangach, lle bo modd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ynglŷn â dyfodol y safle a'r adeilad. Mae'r cynnig yn nodi, os daw'r safle yn segur, bod ymgynghori â'r gymuned leol efallai'n un opsiwn i gadarnhau p'un a oes angen cymunedol cynaliadwy yn lleol y gellir ei ddiwallu a'i gyflawni'n llwyddiannus o un safle. Bydd y broses hon yn cael ei rheoli yn unol â pholisi'r awdurdod lleol ar dir ac adeiladau dros ben.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth briodol i effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol a'r graddau y mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol. Mae'r cynnig yn nodi bod capasiti digonol mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gyfagos i dderbyn disgyblion o Ysgol Fabanod Trallwng sy'n dymuno mynychu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn hytrach na pharhau ag addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen.

## Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynnig yn cyfeirio'n benodol at yr adroddiadau arolygu diweddaraf ar gyfer y ddwy ysgol. Mae'n cydnabod bod yr adroddiad arolygu ar gyfer Ysgol Fabanod Trallwng gryn dipyn yn well nag ar gyfer Ysgol Gynradd Coedpenmaen pan gafodd y ddwy ysgol arolygiad craidd ddiwethaf yn nhymor yr haf 2022. Gosodwyd Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn y categori statudol mesurau arbennig gyda meysydd sylweddol yr oedd angen eu gwella, fel effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth, cydweithio cryfach rhwng staff, a gwelliannau mewn addysgu a'r cwricwlwm. Er bod ymweliad Estyn ym mis Ebrill 2024 wedi nodi bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol i gael ei thynnu o'r categori mesurau arbennig, mae'n nodi bod angen sicrhau bod gwelliannau mewn addysgu yn cael eu cynnal ym mhob dosbarth.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth gyfyngedig yn ei gynnig i effaith y newidiadau ar yr ansawdd a'r safonau mewn addysg. Er enghraifft, mae'n crynhoi'r manteision canfyddedig i ddisgyblion ac i staff, yn cynnwys cyfnod pontio mwy di-dor ar gyfer

disgyblion rhwng Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3 a mwy o gyfle i staff ddatblygu'n broffesiynol a dosbarthu cyfrifoldebau o fewn tîm mwy. Fodd bynnag, mae ei ystyriaeth i'r effaith ar safonau dysgu yn canolbwyntio ar 'arbedion maint' ac nid ar effaith debygol y cynnig ar safonau a chynnydd disgyblion. Yn yr un modd, nid yw'n mynd i'r afae â'r effaith ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda. Mae'r rhain yn amryfuseddau pwysig.

Mae'r cynnig yn ystyried yn rhannol yr effaith ar grwpiau bregus, yn enwedig y disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Nid oes gan y naill ysgol na'r llall ddosbarth cymorth dysgu ADY ar hyn o bryd. Mae niferoedd y disgyblion ag ADY wedi'u nodi yn y ddwy ysgol yn isel, ac mae'r cynnig yn haeru'n deg y bydd cymorth ar gyfer disgyblion ag ADY a ddarperir gan Dîm Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yr awdurdod lleol yn parhau ac na fydd yn cael ei effeithio os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen.

Mae'r awdurdod lleol yn nodi'n gywir y byddai'r newidiadau arfaethedig yn arwain at ychydig o darfu ac addasu i ddisgyblion, staff a'r gymuned ehangach. Mae'r cynnig yn nodi lliniariadau addas i gyfyngu ar yr effaith negyddol bosibl yn deillio o'r cynnig neu'i weithredu.